# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 3

HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL

## PENNOD 1

TROSOLWG O'R RHAN

### 38 Trosolwg

Yn y Rhan hon—

(a) mae Pennod 2 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor—

(i) annog pobl leol i gyfranogi pan fo'r cyngor yn gwneud penderfyniadau;

(ii) llunio a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y bydd yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i annog cyfranogiad pan wneir penderfyniadau;

(iii) gwneud cynllun deisebau;

(iv) cyhoeddi cyfeiriad electronig a chyfeiriad post ar gyfer pob un o'i aelodau;

(b) mae Pennod 3 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor gyhoeddi arweiniad i gyd-fynd â'i gyfansoddiad a sicrhau bod copïau o'r arweiniad ar gael ar gais;

(c) mae Pennod 4 yn gwneud darpariaeth—

(i) ar gyfer darlledu trafodion cyfarfodydd prif gynghorau ac awdurdodau lleol eraill sy'n agored i'r cyhoedd;

(ii) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau sy'n galluogi mynychu cyfarfodydd o bell;

(iii) sy'n rhoi'r cyfle i aelodau o'r cyhoedd siarad yng nghyfarfodydd cynghorau cymuned sy'n agored i'r cyhoedd;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 38. (See end of Document for details)*

(iv) ynglŷn â rhoi hysbysiadau, a mynediad at ddogfennau, sy'n ymwneud â chyfarfodydd awdurdodau lleol;

(v) ar gyfer gwneud rheoliadau ynglŷn â chyfarfodydd awdurdodau lleol, cyhoeddi gwybodaeth a chyfarfodydd cymunedol;

(d) mae Pennod 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â'u blaenoriaethau, eu gweithgareddau a'u cyflawniadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 38 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(g)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 38.